Edexcel GCE

# Technoleg Cerddoriaeth

**Uwch**

**Uned 3: Technoleg Cerddoriaeth Portffolio 2**

Dyddiad rhyddhau: Dydd Sul 1 Medi 2013
**Amser: 60 awr**

Cyfeirnod y Papur
**6MT03/01W**

**Rhaid bod gennych:**
Copi o'r recordiad gwreiddiol fel y'i disgrifir ar gyfer Tasg 3A

## Cyfarwyddiadau i Athrawon

- Rhaid i'r Portffolio, yn cynnwys Tasgau 3A, 3B a 3C, gael ei gyflwyno i'w asesu ar ffurf recordiadau stereo ar UN CD SAIN, ynghyd â'r Llyfr Log a'r Ffurflen Ddatganiad.
- Caiff canolfannau eu hatgoffa y dylai cyflwyniad pob ymgeisydd gael ei gyflwyno ar CD ar wahân (NID ar MiniDisc™ na chasét) a rhaid nodi cyfeirnod y papur (6MT03/01W), rhif y ganolfan, enw'r ymgeisydd a rhif yr ymgeisydd yn glir arno.
- Rhaid cyflwyno Tasg 3A fel trac 1, Tasg 3B fel trac 2, a Thasg 3C fel trac 3.
- Rhaid i ganolfannau gadw copïau wrth gefn o holl recordiadau ymgeiswyr ar gyfer Tasgau 3A, 3B a 3C a ffeiliau meddalwedd patent ar gyfer pob tasg.
- Rhaid gwirio CDau cyn eu hanfon, a'u pecynnu fel na wneir difrod iddynt wrth eu hanfon.
- Rhaid anfon y CD a'r Llyfr Log gyda'r Ffurflen Ddatganiad wedi'i llofnodi at yr arholwr i gyrraedd erbyn 15 Mai 2014.

## Cyfarwyddiadau i Ymgeiswyr

- Cwblhewch **bob un o'r TAIR** tasg
- Cwblhewch y Llyfr Log
- Llofnodwch y Ffurflen Ddatganiad

## Gwybodaeth i Ymgeiswyr

- **120** yw cyfanswm y marciau ar gyfer yr uned hon.
- Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu (40 marc)
- Tasg 3B: Recordiad Aml-drac (40 marc)
- Tasg 3C: Cyfansoddi gan ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth (40 marc)

*Trowch y dudalen* ▶

P45271A
©2013 Pearson Education Ltd.
1/1/

P45271A

PEARSON

## Amodau Rheoledig

**Mae gan Uned 3 dair tasg yn y Portffolio Technoleg Cerddoriaeth: 3A – Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu, 3B – Recordiad Aml-drac a 3C – Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth. Hefyd, mae Llyfr Log y mae'n rhaid ei gyflwyno fel rhan o'r Portffolio.**

Nid yw'r gofyniad am **Amodau Rheoledig** yn golygu bod rhaid i'r cyflwyniad gael ei wneud, o'r dechrau i'r diwedd, o dan oruchwyliaeth gaeth yn adran technoleg cerddoriaeth yr ysgol neu'r coleg. Gall gael ei rannu'n fras yn ddwy broses, '**ymchwil a pharatoi**' ac '**ysgrifennu**', gyda dim ond yr amser sy'n cael ei dreulio ar ran ysgrifennu'r broses yn cyfrif tuag at yr uchafswm o 60 awr a nodir yn y fanyleb.

### Ymchwil a Pharatoi

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n cael ei wneud cyn cwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

*Gall* yr ymchwil a'r paratoi *gael ei wneud y tu allan i'r ganolfan*. Nid oes cyfyngiad amser arno. Gall y canlyniadau gael eu cofnodi'n ysgrifenedig neu'n electronig, a gellir mynd â'r rhain i mewn ac allan o'r ganolfan a gellir cyfeirio atynt yn ystod yr amser ysgrifennu rheoledig. Fodd bynnag, *rhaid* i'r athro/athrawes eu harchwilio, a bod yn fodlon mai gwaith y myfyriwr ei hun ydynt.

### Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gweithio allan y rhannau o'r trac sain gwreiddiol; datblygu sgiliau cynhyrchu cerddoriaeth gan ddefnyddio'r pecyn dilyniannu/gweithfan sain digidol; arbrofi ag ansoddau (*timbres*), technegau recordio, effeithiau a phrosesu; ymchwilio i'r trac sain gwreiddiol; ymarfer y rhannau sydd i'w chwarae i'r dilyniannwr a rhoi ymarfer i'r perfformwyr byw.

### Tasg 3B: Recordiad Aml-drac

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn astudio'r trac a fydd yn cael ei recordio, paratoi ac ymarfer yr ensemble a fydd yn cael ei recordio, gwirio a phrofi offer, datblygu techneg microffonau a'u lleoli, profi lefelau a chael popeth wedi'i osod a'i baratoi ar gyfer y broses recordio go iawn; gwrando ar y gwreiddiol a phenderfynu pa effeithiau a phrosesu a ddefnyddiwyd, arbrofi â thechnegau cynhyrchu cerddoriaeth a chymysgu.

### Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth

Bydd ymchwil a pharatoi yn cynnwys amser sydd wedi'i dreulio yn gwrando ar gerddoriaeth mewn arddulliau sy'n gwneud y mwyaf o dechnoleg; astudio'r briffiau a phenderfynu ar y dewis; cynllunio'r dull o gyflawni'r briff; ymarfer technegau synthesis, samplu, defnyddio effeithiau yn greadigol ac addasiadau (*manipulation*) eraill ar sain; ymchwilio'n llawn i'r holl bosibiliadau y mae eich meddalwedd a'ch ategion (*plug-ins*) yn eu cynnig; arbrofi â syniadau alawol, harmonig a rhythmig addas; gweithio â gwead (*texture*), offeryniaeth, a ffurf; gweithio allan ddrafftiau bras o'r cyfansoddiad.

**Ysgrifennu**

Yn fras, dyma unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chwblhau'r arteffact terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr.

Mae gan fyfyrwyr uchafswm o 60 awr o amser ysgrifennu. Rhaid i athrawon gadw cofnod ysgrifenedig i wneud yn siŵr *nad aethpwyd dros* amser ysgrifennu pob myfyriwr. Gall y 60 awr gael eu rhannu ar draws y 3 tasg fel y bo'n briodol – dylai'r 20 awr y dasg a nodir yn y fanyleb gael ei ddefnyddio fel canllaw, ond nid yw'n orfodol – ond ni ddylid mynd dros y **cyfanswm** o 60 awr ar gyfer y portffolio cyfan.

Bydd amser ysgrifennu'n digwydd yn y ganolfan, naill ai mewn amser gwersi yn yr amserlen neu y tu allan iddynt, beth bynnag sy'n fwyaf cyfleus i bawb. Mae'n rhaid iddo fod o dan oruchwyliaeth.

**Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu**

Mae unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r recordiad terfynol a anfonir at yr arholwr yn cael ei ystyried yn rhan o 'ysgrifennu' y dasg. Mae hyn yn cynnwys: mewnbynnu nodau i'r pecyn dilyniannu neu olygu unrhyw ddata yn dilyn hynny, gan gynnwys golygu ansoddau, traw, rhythm, gwybodaeth rheolydd; recordio'r lleisiau byw a'r rhannau eraill; gwaith ar effeithiau, EQ, prosesu dynameg ac agweddau eraill ar y cymysgedd terfynol. Mae sboncio terfynol (cymysgu i lawr) y dilyniant gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Tasg 3B: Recordiad Aml-drac**

Daw unrhyw beth a fydd yn ffurfio rhan o'r trac sain gorffenedig sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys recordio'r cerddorion, unrhyw olygu yn dilyn hynny gan gynnwys trimio traciau, gosod lefelau, ychwanegu effeithiau a phrosesu, cymysgu a chreu meistr. Mae sboncio terfynol (cymysgu i lawr) y recordiad gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth**

Daw unrhyw beth sy'n cael ei fewnbynnu i'r trac terfynol sydd i'w anfon at yr arholwr o fewn yr amser 'ysgrifennu'. Bydd hyn yn cynnwys amser sy'n cael ei dreulio'n mewnbynnu'r holl syniadau a gafodd yr ymgeisydd yn ystod yr amser paratoi ac unrhyw addasiadau, golygu ac ychwanegiadau a wneir wedi hynny i'r cyfansoddiad terfynol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys synthesis, golygu ansoddau a lleisiau, addasu seiniau, gwaith samplu a defnyddio effeithiau a phrosesu. Mae sboncio terfynol (cymysgu i lawr) y cyfansoddiad gorffenedig i ffeil sain stereo hefyd yn cael ei ystyried yn amser 'ysgrifennu', er nad yw paratoi a llosgi'r CD ar gyfer ei gyflwyno yn cael ei ystyried yn rhan o hyn.

**Llyfr Log**

Nid yw cwblhau'r Llyfr Log yn cyfrannu at y cyfyngiad 60 awr, ond mae'n rhaid ei gwblhau o dan oruchwyliaeth gyfyngedig.

**Ffurflen Ddatganiad**

Rhaid i ymgeiswyr lofnodi'r Ffurflen Ddatganiad ar dudalen 16 y Llyfr Log gan ddatgan mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith. Ni fydd athrawon yn cydlofnodi'r datganiad os nad yw'r gwaith yn ymddangos yn waith gwreiddiol.

**Tasg 3A: Perfformiad Integredig wedi'i Ddilyniannu**

**Ysgogiadau**

- **Madness (Muse)** o'r CD *The 2nd Law,* Warner Music UK Ltd - 825646568802 (2012)
- **Small Town (Morcheeba)** o'r CD *Who Can You Trust?*, Indochina - ZEN009CD (1996)

Mae gofyn i chi gynhyrchu sylweddiad (*realisation*) integredig wedi'i ddilyniannu gan ddefnyddio **un** o'r recordiadau sydd wedi'u rhestru uchod yn ysgogiad i chi. Rhaid i chi gynnwys pob llais, rhan offerynnol a nodwedd gynhyrchu.

**Mae'n rhaid i chi greu rhan sy'n pylu allan (*fade out*):**

- **Madness (Muse): pylu allan rhwng 3'34" a 3'43".**
- **Small Town (Morcheeba): pylu allan rhwng 3'41" a 3'50".**

**Nid oes angen i chi sylweddoli (*realise*) y gerddoriaeth ar ôl y pylu.**

Tasg glywedol (*aural*) yw hon yn bennaf, ac nid oes sgôr wedi cael ei chynnwys. Cewch weithio o sgôr os ydych yn dymuno hynny, ond byddwch yn ymwybodol fod sgorau caneuon roc a phop yn aml yn anghyflawn neu'n anghywir.

- Dylech gydweddu (*match*) ansoddau (*timbres*) a manylion perfformiad mor agos ag sy'n bosibl â'r ysgogiad.
- Rhaid i chi recordio perfformiad byw o'r **brif ran leisiol** ac integreiddio hwn yn y cymysgedd terfynol. Gall y darn gael ei drawsnodi (*transpose*) i gywair gwahanol sy'n addas ar gyfer cwmpas lleisiol y canwr. Gall y darn gael ei ganu gan ddyn neu fenyw.
- Cewch recordio **hyd at dri** thrac sain **byw** (gan gynnwys y prif leisiau). Gall y lleisiau cefndir gael eu recordio'n fyw, neu eu dilyniannu gan ddefnyddio technegau ac ansoddau priodol.
- Cewch ddefnyddio samplu i ddyblygu (*replicate*) technegau cynhyrchu lle bo'n briodol, ond **ni chewch** samplu'r recordiad gwreiddiol.
- Mae'n rhaid mai chi yn unig sy'n gyfrifol am y broses recordio, o ddal y sain i gymysgu i lawr. Ni chaniateir i ymgeiswyr rannu ffeiliau sain rhyngddynt.
- Mae'n rhaid i chi fewnbynnu'r **holl** ddata wedi'i ddilyniannu trwy chwarae neu raglennu'r rhannau eich hun.
- **Ni chewch** ddefnyddio unrhyw ffeiliau MIDI sy'n cael eu lawrlwytho o'r rhyngrwyd neu eu copïo o unrhyw ffynhonnell arall.
- Ni chewch ddefnyddio dolenni sain neu MIDI a raglennwyd ymlaen llaw yn y dasg hon.
- Ni chewch samplu sain o unrhyw fersiwn o'r ysgogiad.

**Dylech gyflwyno eich perfformiad gorffenedig fel trac 1 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3A = 40 marc)**

**Tasg 3B: Recordiad Aml-drac**

Gwnewch recordiad o ddarn o gerddoriaeth o'ch dewis chi, mewn arddull sy'n gysylltiedig â Maes Astudio 3: Datblygiad Cerddoriaeth yn seiliedig ar Dechnoleg.

Mae'n rhaid i chi recordio darn o gerddoriaeth sydd wedi'i ryddhau'n gyffredinol, neu ddarn safonol cydnabyddedig o roc, pop neu jazz. **Ni chaiff** hwn fod yn gyfansoddiad gwreiddiol gan y myfyriwr.

Mae'n rhaid i'ch recordiad gynnwys pedwar offeryn acwstig a/neu gerddorfaol (Pwnc A) **neu** bedwar offeryn taro (Pwnc B).

Gall deunydd ysgogi gael ei drefnu i fodloni gofynion y fanyleb ac mewn ffordd addas i'r adnoddau sydd ar gael ond ni fydd y trefniant yn cael ei asesu. Mae'n rhaid i'r adnoddau sy'n cael eu dewis fod yn ddigonol i greu trefniant dichonadwy.

Dylai eich recordiad:

- bara rhwng 3 a 5 munud
- defnyddio o leiaf 12 trac
- bod ag o leiaf 8 trac sy'n cael eu dal gan ddefnyddio microffonau
- defnyddio daliad DI lle bo'n briodol
- gwneud defnydd o dechnegau tros-seinio (*overdub*)
- defnyddio cerddorion byw yn unig, ac ni ddylai gynnwys unrhyw berfformiadau sydd wedi'u dilyniannu gan MIDI, dolenni sain na samplau
- bod yn gynhyrchiad stereo rhydd rhag sŵn, gan ddefnyddio effeithiau a phrosesu priodol.

Mae'n rhaid mai chi yn unig sy'n gyfrifol am y broses recordio, o ddal y sain i gymysgu i lawr. Ni chaniateir i ymgeiswyr rannu ffeiliau sain rhyngddynt.

**Dylech gyflwyno'ch recordiad gorffenedig fel trac 2 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3B = 40 marc)**

**Tasg 3C: Cyfansoddi gan Ddefnyddio Technoleg Cerddoriaeth**

**Dewiswch UN o'r briffiau canlynol, a chyfansoddwch ddarn gwreiddiol yn unol â'r cyfarwyddiadau.**

**Mae'n rhaid i'r cyfansoddiad gynnwys o leiaf CHWE rhan leisiol/offerynnol/wedi'u seilio ar samplau, ar wahân.**

Cewch ddefnyddio unrhyw gyfuniad o:

- ansoddau (*timbres*) sy'n cael eu rheoli gan MIDI
- samplau
- sain sydd wedi'i recordio'n fyw
- seiniau atmosfferig ac effeithiau electro-acwstig.

Mae'n rhaid i chi:

- ddefnyddio dyluniad sain gwreiddiol (synthesis/addasu samplau (*sample manipulation*)/effeithiau creadigol)
- cynhyrchu recordiad stereo o ansawdd uchel o'ch cyfansoddiad, sy'n talu sylw i bob agwedd ar gynhyrchu – daliad, cydbwysedd, asio (*blend*), EQ, dynameg, maes stereo ac effeithiau.

Caiff ymgeiswyr eu hatgoffa mai tasg gyfansoddi yw hon, nid tasg ailgymysgu neu dasg drefnu. Dylai unrhyw samplau rydych chi wedi eu defnyddio gael credyd yn eich Llyfr Log, gyda manylion unrhyw brosesu a ffynhonnell y samplau (p'un ai bod y rhain yn dod o set fasnachol neu'n hunanrecordiad).

**Dylech gyflwyno'ch cyfansoddiad gorffenedig fel trac 3 ar eich CD Portffolio Technoleg Cerddoriaeth 2.**

**BRIFF CYFANSODDI 1**

**Fideo Cerddoriaeth gan SoundmanFilms**

Rydych chi wedi cael eich comisiynu i gyfansoddi'r gerddoriaeth ar gyfer y fideo hwn. Dylai eich cyfansoddiad adlewyrchu drama (*action*), emosiynau a hynt (*pace*) y ffilm, a chael ei amseru fel ei fod yn cydamseru'n gywir â'r golygfeydd a'r delweddau. Mae'n rhaid i chi ddefnyddio ffeil y ffilm sydd ar wefan Edexcel ac nid unrhyw fersiwn arall:

**http://www.edexcel.com/quals/gce/gce08/music/tech/Pages/default.aspx**

I ddod o hyd i ffeil y ffilm, copïwch a gludo neu teipiwch y ddolen hon i'r bar cyfeiriad ar eich porwr rhyngrwyd.

**Ni chewch samplu sain o unrhyw fersiwn o'r ffilm.**

**Rhaid i'ch cyfansoddiad bara am DAIR MUNUD.**

**BRIFF CYFANSODDI 2**

**Expect Nothing**

Crëwch gyfansoddiad gan ddefnyddio'r gerdd *Expect Nothing* gan Alice Walker. Mae'n rhaid i ystyr y testun gael ei adlewyrchu yn y gerddoriaeth. Gall eich cyfansoddiad fod ar ffurf cân (sy'n gorfod cynnwys lleisiau wedi'u recordio), neu ddarn o gerddoriaeth gyfoes sy'n defnyddio samplau sain a grëwyd o ddetholiadau o'r testun wedi'u recordio. Cewch addasu neu aildrefnu'r geiriau.

**Rhaid i'ch cyfansoddiad bara am DAIR MUNUD.**

*Expect Nothing*

Expect nothing. Live frugally
On surprise.
become a stranger
To need of pity
Or, if compassion be freely
Given out
Take only enough
Stop short of urge to plead
Then purge away the need.

Wish for nothing larger
Than your own small heart
Or greater than a star;
Tame wild disappointment
With caress unmoved and cold
Make of it a parka
For your soul.

Discover the reason why
So tiny human midget
Exists at all
So scared unwise
But expect nothing. Live frugally
On surprise.

*Alice Walker*

**BRIFF CYFANSODDI 3**

**Bwyd**

Yn y Deyrnas Unedig mae'n bosibl bwyta bwyd o bron pob rhan o'r byd. Mae cogyddion enwog yn llenwi'r amserlenni teledu, yn gwerthu eu llyfrau ac yn llenwi eu tai bwyta. Mae pobl yn hapus i arbrofi gyda ryseitiau egsotig a deniadol gartref. Ar yr un pryd, mae dadl ffyrnig yn mynd yn ei blaen am ddeietau afiach yn llawn brasterau, siwgrau a chynhwysion artiffisial diangen.

Crëwch gyfansoddiad gwreiddiol sy'n defnyddio **o leiaf CHWE sampl** o eiriau, ymadroddion neu seiniau sy'n deillio o'r broses o baratoi, coginio neu fwyta bwyd.

**Rhaid i'ch cyfansoddiad bara am DAIR MUNUD.**

Cewch ddefnyddio un neu fwy o'r themâu canlynol:

- teyrnged (*homage*) i fwyd penodol, math penodol o goginio neu gogydd enwog penodol
- sylwebaeth ar rinweddau deiet cytbwys, o ddeietau llysieuol, fegan neu ddeietau eraill sy'n cael eu rheoli, i fwyd cyflym a bwyd sothach ar y pegwn arall
- seiniau o'r gegin – paratoi, sleisio a deisio, coginio bwyd, archwilio posibiliadau sonig offer coginio, pecynnau o fwydydd sych
- seiniau'r bwrdd bwyd neu'r tŷ bwyta - o ginio dydd Sul tawel a chwrtais i wledd Fediteranaidd afieithus (*exuberant*).

**(Cyfanswm ar gyfer Tasg 3C = 40 marc)**

**CYFANSWM AR GYFER Y PAPUR = 120 MARC**

**TUDALEN WAG**

**TUDALEN WAG**

**TUDALEN WAG**